# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 2 E+W

COFRESTRU A RHEOLEIDDIO DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

## PENNOD 2 E+W

SICRHAU ANSAWDD A GWELLA ANSAWDD

*Asesu ansawdd mewn addysg uwch*

PROSPECTIVE

### 56 Arfer swyddogaethau asesu addysg uwch gan gorff dynodedig E+W

(1) Mae Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth—

(a) ynghylch dynodi corff i arfer y swyddogaethau asesu;

(b) ynghylch goruchwylio'r corff dynodedig gan y Comisiwn;

(c) i'r corff godi ffioedd.

(2) At ddibenion y Bennod hon, "y swyddogaethau asesu" yw swyddogaethau'r Comisiwn o dan adran 54 (asesu ansawdd addysg uwch).

(3) Pan fo corff wedi ei ddynodi o dan Atodlen 3 i arfer y swyddogaethau asesu, nid yw'r swyddogaethau o dan adran 54 yn peidio â bod yn arferadwy gan y Comisiwn.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 56. (See end of Document for details)*

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 56 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 56.